



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Llechryd  
Llechryd  
Aberteifi  
Ceredigion  
SA43 2NL**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2013

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd ym mhentref Llechryd tua thair milltir i'r de o dref Aberteifi. Mae'n darparu addysg ddwyieithog i 41 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed, gyda thua 27% ohonynt yn dod o'r tu allan i'r dalgylch. Cânt eu haddysgu mewn tri dosbarth oedran cymysg.

Mae 90% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Cymraeg yw cyfrwng addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Cyflwynna'r ysgol y rhaglen astudio Saesneg i ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae tua 18% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn pryduau ysgol yn rhad ac am ddim, canran sydd yn is na'r ganran genedlaethol. Mae tua 34% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o'r disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2007.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Ionawr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llechryd yn 2013-2014 yw £4,342. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Gynradd Llechryd yn safle'r 25ain o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau;
- disgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith;
- presenoldeb yr ysgol yn gyson dda;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- disgyblion yn dangos agweddau positif at eu gwaith;
- yr addysgu'n gyson effeithiol; a bod
- ethos cynhwysol yn sicrhau cyfranogiad uchel gan ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir wedi arwain at safonau da dros gyfnod o amser;
- yr ysgol yn adnabod cryfderau a meysydd gwelliant yn effeithiol;
- diwylliant o gydweithio effeithiol a rhannu arbenigedd sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau;
- yr ysgol yn ymateb yn dda i argymhellion blaenorol; a bod
- yr ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer gwelliant.

## Argymhellion

- A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion yn eu gwaith ar draws y pynciau
- A2 Sicrhau cyfleoedd pellach i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig er mwyn gwella eu gwaith
- A3 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch
- A4 Sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd
- A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach i herio'r ysgol am safonau

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu, darllen a chymhwyso rhif ar draws y cwricwlwm.

Mewn gwersi, mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau llafar disgyblion eraill. Maent yn cyfathrebu'n naturiol ar lafar yn y Gymraeg ac yn defnyddio ystod briodol o eirfa addas wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith yn y dosbarth. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n dda yn gynnar. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn rhugl gan fynegi eu syniadau yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu gyda chywirdeb. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau i ddarllen a deall testunau. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda wrth ddarllen ar goedd yr hyn y maent yn ei ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod eu llyfrau darllen yn llwyddiannus gan fynegi barn am eu hoff awduron yn hyderus. Gwna llawer ddefnydd arbennig o dda o'u medrau darllen i ymchwilio i bynciau. Enghraifft dda o hyn yw'r cywain gwybodaeth er mwyn creu pamffledi ar ardaloedd yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd wrth ysgrifennu'n ddealladwy yn y Cyfnod Sylfaen gyda'r ysgrifenydd mwyaf llwyddiannus yn ysgrifennu darnau dychmygus a chywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod eang o destunau yn Saesneg ac ystod briodol o destunau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydynt wastad yn ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu trafod rhif a data'n gadarn yn y gwersi mathemateg ac yn medru eu cymhwyso'n llwyddiannus wrth ddatrys problemau mewn cyd-destunau eraill.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau personol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Oherwydd niferoedd bychain a chanran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal.

Yn asesiadau 2013, roedd cyflawniad disgyblion yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ond yn is na'r ganran genedlaethol. Roedd perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn iaith yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer iaith ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol a

datblygiad personol. Roedd cyflawniadau'r dysgwyr ar y deilliant uwch, sef deilliant 6 yn y Cyfnod Sylfaen, ymhlith y 50% uwch ar gyfer iaith, yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. Fodd bynnag, roedd canlyniadau 2012 mewn sawl dangosydd yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd cyflawniadau'r dysgwyr mewn sawl dangosydd yn is na chyfartaleddau'r teulu ac yn gosod yr ysgol gan mwyaf yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Fodd bynnag, yn y pedair blynedd flaenorol, mae'r canlyniadau yn aml wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion, yn cynnwys ar y lefelau uwch.

### **Lles: Da**

Mae Ysgol Llechryd yn ysgol hapus lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn. Maent yn troi at unrhyw aelod o'r staff neu ffrind am gymorth fel bo'r angen. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae'r 'Dŵds Diogelwch' a'r 'Ffrindiau ffit' yn hybu'r agenda ffitrwydd a diogelwch y disgyblion yn effeithiol.

Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn mynegi barn ac yn rhan o benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol. Maent yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi llwyddo i'w gyflawni trwy'r amrywiol bwyllgorau a'r busnes gwerthu wyau soflieir.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol. Dangosant barch tuag at ei gilydd, tuag at staff a thuag at ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar agweddau aeddfed at eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn asesu eu cynnydd eu hunain er mwyn deall eu cryfderau a'u gwendidau a datblygu fel dysgwyr annibynnol. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn datblygu cyfrifoldeb am wneud cynnydd.

Mae canran presenoldeb yr ysgol yn gyson uchel, ac wedi bod yn y 25% uchaf o blith ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn ymdrin â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynlluniau tymor hir yn fanwl a thrylwyr. Mae athrawon yn adolygu eu cynllunio yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae profiad disgyblion yn cael ei gyfoethogi ymhellach gydag ymweliadau addysgol.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd o fewn y Gymraeg a Saesneg, ar y cyfan, yn effeithiol. Ond mae'r cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith yn anghyson. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau rhif a meddwl ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae cyfleoedd a ddarperir i ailgylchu, arbed ynni a dileu gwastraff yn gwneud gwahaniaeth positif i'r amgylchedd ac yn codi ymwybyddiaeth disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cael amryw gyfleoedd i gefnogi eraill llai ffodus ac yn deall pwysigrwydd ac arwyddocâd hyn fel dinasyddion y dyfodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau priodol sy'n hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig trwy ymweliadau theatr Felinfach â'r ysgol, astudiaethau o'r ardal leol, hybu twristiaeth yng Nghymru ac artistiaid lleol fel Helen Elliott.

### **Addysgu: Da**

Mae addysgu ar draws yr ysgol yn gyson effeithiol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a gwnânt defnydd effeithlon o staff eraill i hyrwyddo llwyddiant y dysgwyr. Maent yn gosod amcanion dysgu eglur ac yn disgwyl safonau uchel oddi wrth yr holl ddisgyblion. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud defnydd da o offer ac adnoddau dysgu, ac yn arddangos ystod o arddulliau addysgu er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion. Trwy ymyrraeth gynhaliol, mae disgyblion yn datblygu medrau dysgu a medrau meddwl da.

Yn yr addysgu mwyaf effeithiol, gwneir defnydd cyson o holi treiddgar ac adborth llafar defnyddiol er mwyn datblygu syniadau'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn hyrwyddo dysgu annibynnol gan ddefnyddio tasgau heriol a diddorol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar. Gwneir defnydd pwrpasol o'r holl asesiadau er mwyn cynllunio ar gyfer grwpiau ac unigolion a sicrhau cynnydd. Mae trefniadau cadarn gan yr ysgol i sicrhau bod asesiadau yn gywir.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig pwrpasol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn myfyrio ar eu cynnydd eu hunain ac yn gosod targedau ar gyfer gwelliant. Mae'r disgyblion yn gwybod beth i'w wneud i wella eu dysgu eu hunain ond anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yr athrawon yn llawn.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cynnig gwybodaeth lawn ar gynnydd eu plant ac maent yn bodloni gofynion statudol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus, gynhwysol a gofalgar sy'n ennyn disgyblaeth a pharch ymysg y disgyblion. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol ac yn cefnogi digwyddiadau diwylliannol yn gyson.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Er hynny, mae mater yn ymwneud â iechyd a diogelwch y mae angen mynd i'r afael ag ef.



Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr ar gyfer nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae'r ysgol yn mesur cyflawniad disgyblion yn ofalus ac yn nodi'n gynnar pa ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cwrdd ag anghenion dysgwyr unigol yn effeithiol. Gwneir defnydd addas o gynlluniau addysg unigol er mwyn darparu ymyrraeth sensitif ac addas. Mae'r cynnydd a wna'r disgyblion unigol yn cael ei fesur yn gyson er mwyn sicrhau llwyddiant.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o gymorth allanol er mwyn sicrhau iechyd a lles y disgyblion, er enghraifft yr heddlu ac arbenigedd yr awdurdod lleol. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar ddatblygiad ysbrydol a moesol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cwrdd yn llawn â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Ysgol Llechryd ethos cynhwysol lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle caiff pob disgybl yr un cyfle i gymryd rhan mewn addysg. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol adnoddau pwrpasol ar gyfer holl anghenion dysgu a chyflwyno'r cwricwlwm. Ar draws yr ystafelloedd dosbarth, coridorau a neuadd yr ysgol, mae arddangosfeydd ysgogol o waith a chyfrifoldebau'r disgyblion, sy'n creu amgylchedd atyniadol a lliwgar.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r awyr agored er mwyn darparu ardaloedd diddorol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddysgu a chwarae ynddynt. Caiff yr ardd ei defnyddio'n bwrpasol ar gyfer dibenion y disgyblion ac mae'r safle wedi ei ddatblygu yn briodol dros y blynyddoedd diweddar gyda chymorth y disgyblion. Mae'r toiledau yn lân ac addas a chaiff yr holl safle ei gynnal a'i gadw'n dda.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nodau clir, amcanion strategol, a chynlluniau a pholisïau sy'n ffocysu'n glir ar gwrdd ag anghenion pob disgybl. Mae pob aelod o staff yn rhannu'r weledigaeth a grëwyd ar y cyd gyda'r llywodraethwyr a'r rhieni. O ganlyniad, mae ethos o gydweithio agos er lles y disgyblion yn treiddio trwy'r partneriaethau allweddol hyn ac yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Mae'r pennaeth wedi creu awyrgylch cynhaliol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Drwy hyn mae pawb yn cyd-dynnu er sicrhau llwyddiant.

Mae prosesau rheoli perfformiad cadarn yn bodoli yn yr ysgol ar gyfer yr holl staff. Trwy hyn, mae disgwyladau uchel yn cael eu gosod ar gyfer sicrhau gwelliant ynghyd â thargedau heriol. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir, gyda phob aelod o staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rhan ganolog yn y broses o ddarparu cyfeiriad a gweledigaeth i'r ysgol. Trwy adroddiadau trwyadl y pennaeth a'u rhan yn y broses o fonitro safonau, mae ganddynt ddarlun cywir o berfformiad yr ysgol. Mae rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu, ond nid ydynt yn darparu digon o her i safonau.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae pob agwedd ar y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu yn gyson trwy raglen barhaus tros dair blynedd. Mae'r prosesau yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o'r data, arsylwi gwersi, monitro llyfrau disgyblion, trafod â disgyblion a'u rhieni a defnyddio arbenigedd yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o'i chryfderau a'r agweddau sydd angen eu cryfhau. Mae'r adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r broses yn gytbwys ac yn dangos bod arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i osod blaenoriaethau a thargedau priodol ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu ychydig yn nodi'n glir yr hyn sydd angen ei wneud, y camau i'w cymryd a'r gost. Mae terfynau amser priodol yn cael eu pennu ar gyfer y camau gweithredu ac mae cyfrifoldebau wedi eu dyrannu'n glir. Mae tystiolaeth glir bod cynlluniau gwella'r ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar godi a chynnal safonau a darpariaeth.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gynnal safonau a lles disgyblion, gan sicrhau bod cyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.

Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn un o gryfderau'r ysgol. Yn gyson, mae'r ysgol yn ymgynghori â'r rhieni ac wedi llwyddo eu cynnwys yn y broses o greu gweledigaeth effeithiol ar gyfer yr ysgol. Mae'r berthynas hon wedi cael effaith bositif ar safonau, lles a phresenoldeb y disgyblion. Cyfranna'r rhieni yn hael at goffrau'r ysgol yn gyson a gwneir defnydd da o'r cyllid ychwanegol er budd y disgyblion.

Mae cysylltiadau agos â'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Daw aelodau o'r gymuned i mewn i'r ysgol i wrando ar ddarllen ac mae hyn yn meithrin parch at oedolion a datblygu medrau llythrennedd yn dda.

Mae cydweithio agos gyda'r cylch meithrin sy'n cwrdd yn yr ysgol ac mae hyn hwyluso trosglwyddiad esmwyth y plant. Yn yr un modd, mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol gyfun leol. Mae'r trefniadau hyn yn paratoi'r disgyblion hyn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol fel gymuned ddysgu. Mae diwylliant iach o gydweithio effeithiol o fewn yr ysgol ac mae hyn yn cael ei feithrin yn llwyddiannus

gan y pennaeth. Trwy hyn, gwneir defnydd pwrpasol iawn o gryfderau addysgu a diddordebau staff ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol. Mae staff yn arsylwi ar ei gilydd, yn rhannu arfer dda ac yn cael cyfleoedd priodol i drafod arferion ei gilydd. Mae trefniadau priodol ar gyfer sicrhau amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei monitro'n effeithiol ac mae cyswllt da rhwng gwariant a'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu. Mae'r adnoddau yn addas i ofynion yr addysgu ac yn cael eu hadnewyddu'n gyson yn ôl blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Oherwydd niferoedd bychain a chanran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal.

Yn asesiadau 2013, roedd cyflawniad disgyblion yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ond yn is na'r ganran genedlaethol. Roedd perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn iaith yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer iaith ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol a datblygiad personol. Roedd cyflawniadau'r dysgwyr ar y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn y Cyfnod Sylfaen ymhlith y 50% uwch ar gyfer iaith, yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. Fodd bynnag, roedd canlyniadau 2012 mewn sawl dangosydd yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf.

Yn asesiadau 2013, roedd cyflawniadau'r dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn nangosydd y pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar sail hawl i brydau ysgol am ddim. Mae cyflawniad dysgwyr ar y lefel ddisgwylidig, sef lefel 4, yn y Gymraeg, yn dangos tueddiad o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r pynciau craidd eraill yn dangos sefydlogrwydd dros amser.

Mae cyflawniad disgyblion yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn is na'r teulu ond yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y Gymraeg, mae cyflawniad y dysgwyr yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyflawniad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaleddau'r teulu a'r cyfartaleddau cenedlaethol yn 2013.

Mae cyflawniad disgyblion ar lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer y Gymraeg ac yn y 50% is ar gyfer y pynciau craidd eraill. Fodd bynnag, yn y pedair blynedd flaenorol, mae'r canlyniadau yn aml wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion, yn cynnwys ar y lefelau uwch.

Does dim patrwm amlwg rhwng canlyniadau bechgyn a merched dros gyfnod, na rhwng disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a gweddill y garfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

#### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	
I feel safe in my school.	20	20 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	19	19 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	20	20 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		96%	4%	
The school teaches me how to keep healthy	20	20 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	20	20 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	20	20 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	20	20 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	20	20 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	20	20 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	20	20 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	20	20 100%	0 0%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		78%	22%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	20	20 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree	Ddim yn gwybod Don't know	
Overall I am satisfied with the school.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	12	7 58%	5 42%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	0%		
Pupils behave well in school.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	12	10 83%	2 17%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	35%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree	Ddim yn gwybod Don't know	
I am kept well informed about my child's progress.	12	10 83%	2 17%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	12	9 75%	3 25%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	12	7 58%	5 42%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		55%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	9	4 44%	3 33%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	11	7 64%	4 36%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	32%	3%	1%		

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Helen Morgan-Rees	Arolygydd Cofnodol
Maldwyn Pryse	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Gareth Owen	Arolygydd Cymheiriaid
Meinir Lewis	Enwebai



## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.